

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich
dewis iaith.*

*We welcome correspondence in Welsh. Please
let us know if your language choice is Welsh.*



Annwyl Cyngorydd,

Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate

Deialu uniongyrchol / Direct line /:01656 643696

Gofynnwch am / Ask for: Mrs Julie Ellams

Ein cyf / Our ref:

Eich cyf / Your ref:

Dyddiad/Date: Dydd Mercher, 31 Hydref 2018

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yn Siambr y Cyngor - Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB ar **Dydd Mawrth, 6 Tachwedd 2018** am **10:00**.

AGENDA

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. Datganiadau o fuddiant
Derbyn datganiadau o ddi-ddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
3. Cymeradwyaeth Cofnodion 3 - 20
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 25/07/2018 and 26/09/2018
4. Diweddariad Rhaglen Gwaith 21 - 36
5. Cod ymarfer: Cyflogaeth foesebol mewn cadwyni cyflenwi 37 - 42

Gwahoddedigion:

Darren Mephram, Prif Weithredwr;
Rachel Jones, Rheolwr Caffael Corfforaethol;
Kelly Watson, Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd;
Cyng Hywel Williams, Dirprwy Arweinydd.

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwidd testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

6. Materion Brys

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Yn ddiffuant

K Watson

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol

Dosbarthiad:

Cynghowrwy

JPD Blundell

N Clarke

J Gebbie

T Giffard

Cynghorwyr

CA Green

M Jones

RL Penhale-Thomas

B Sedgebeer

Cynghorwyr

RMI Shaw

JC Spanswick

T Thomas

CA Webster

Agenda Item 3

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 25 GORFFENNAF 2018

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 25 GORFFENNAF 2018, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd CA Green – Cadeirydd

JPD Blundell
RMI Shaw

N Clarke
JC Spanswick

J Gebbie
T Thomas

M Jones

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

T Giffard, RL Penhale-Thomas a/ac B Sedgebeer

Swyddogion:

Mark Galvin
Gail Jewell

Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Pwyllgorau
Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Craffu

Gwahoddedigion:

Susan Cooper

Cynghorydd Huw David

Lindsay Harvey

Darren Mephram

Zak Shell

Cynghorydd Charles Smith

Cynghorydd Richard Young

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

Arweinydd

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Prif Weithredwr

Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth

Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio

Aelod Cabinet - Cymunedau

73. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dyweddodd y Cynghorydd J.P. Blundell a'r Cynghorydd R. Shaw fod ganddynt fudd personol yn Eitem 4 ar yr agenda.

74. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod 18 Mehefin 2018 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

75. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd Cyfreithiwr y Cyngor a'r Swyddog Monitro adroddiad er mwyn cyflwyno'r canlynol gerbron y Pwyllgor:

- a) yr eitemau fydd yn cael eu hystyried yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor, a gynhelir ar 26 Medi 2018, a cheisio am gadarnhad o'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y cyfarfod dilynol a drefnwyd, a gynhelir ar 6 Tachwedd 2018
- b) rhestr o ymatebion i sylwadau, argymhellion a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol o gyfarfod blaenorol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol
- c) rhestr o eitemau posibl y Flaenraglen Waith ar gyfer blaenoriaethu ffurfiol a dyrannu i bob un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc

Roedd adborth o gyfarfod blaenorol y Pwyllgor wedi'i atodi i'r adroddiad yn Atodiad A, ac roedd Atodiad B yn manylu Blaenraglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, gan amlinellu'r agenda ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf.

Cyfeiriodd y Swyddog Craffu wedyn at Atodiad C yr adroddiad, a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc, a oedd yn cynnwys y pynciau y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt ac y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ar gyfer y gyfres nesaf o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc yn Nhabl 1, yn ogystal â rhestr o bynciau arfaethedig ar gyfer y dyfodol yn Nhabl 2.

Yn dilyn y ddatl a ddilynodd ynghylch cynnwys yr adroddiad, cadarnhaodd y Pwyllgor yr eitemau canlynol ar gyfer Blaenrhaglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol:

26 Medi 2018 Trawsnewid Digidol

6 Tachwedd 2018 Caffael a Chontractau

Gofynnodd aelodau i'r adroddiad nodi'r canlynol:

- Gwybodaeth am ofal cartref a chontractau cyflogaeth
- Diweddariad ynghylch yr ystyriaeth i weithredu'r Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesol mewn Cadwyni Cyflenwi
- Gwybodaeth am sut mae'r cyngor yn sicrhau arferion cyflogaeth teg o fewn cadwyni cyflenwi
- Diweddariad ynglŷn â chanlyniadau'r adolygiad busnes o faes caffael
- Manylion ynghylch yr hyn mae'r cyngor yn ei wneud i hyrwyddo caffael moesegol – mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys copi o strategaeth gaffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cadarnhaodd y Pwyllgor yr eitemau canlynol ar gyfer Blaenraglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc:

5 Medi 2018 SOSC1 Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

6 Medi 2018 SOSC 2 Eiriolaeth

17 Medi 2018 SOSC 3 Gwasanaethau Gwastraff

16 Hydref 2018 SOSC 1 Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol

18 Hydref 2018 SOSC 2 I'w gadarnhau

22 Hydref 2018 SOSC3 Proses CAT Ddiwygiedig

PENDERFYNWYD:
weithredu'r cynigion uchod.

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi yn amodol ar

76. BARGEN DDINESIG

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn amlinellu agweddau ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn benodol o ran gwybodaeth am y canlynol:

- Trosolwg o'r Fargen Ddinesig a'r hyn y byddai Pen-y-bont ar Ogwr yn ei ennill o ganlyniad iddi ?
- Beth sy'n dod i Ben-y-bont ar Ogwr o ganlyniad i'r Fargen Ddinesig ? (beth ydym ni'n ei gael fel canran o'r mewnbwn ariannol ?)
- A oes cynllun busnes y gall aelodau ei weld ?
- Pa brosiectau sydd wedi cael eu nodi hyd yn hyn ?

Wedyn, rhoddodd gyflwyniad i'r adroddiad, a chafwyd sesiwn holi ac ateb gyda'r aelodau a'r gwahoddedigion yn dilyn hyn.

Cyfeiriodd aelod at baragraffau 3.5 a 3.6 o'r adroddiad, gan nodi bod llawer o rannau gwahanol yn gysylltiedig â'r prosiect, a oedd yn cynnwys y posibilrwydd o ddeg gweledigaeth wahanol (o'r sefydliadau gwahanol sy'n ymwneud â'r cynllun) a fyddai'n cael eu harwain gan ddeg Prif Weithredwr gwahanol. Roedd yn meddwl oherwydd hyn a fyddai'r weledigaeth yn cael ei cholli o ran symud ymlaen â mentrau allweddol.

Dywedodd yr Arweinydd mai ond un weledigaeth oedd mewn perthynas â dyheadau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, h.y. yr un a oedd yn y Cynllun Busnes a oedd yn cefnogi'r cynllun. Cefnogwyd y weledigaeth hon yn unfrydol gan yr awdurdodau a oedd yn ymwneud â'r Fargen Ddinesig, a oedd yn brosiect hirdymor dros 20 o flynyddoedd a oedd wedi'i lofnodi gan bob un o'r deg sefydliad a oedd yn cymryd rhan gyda llywodraethau'r DU a Chymru. Cefnogwyd y Fargen Ddinesig gan £375 miliwn, a byddai'n darparu cyflogaeth, cyfleoedd adfywio a gwell cysylltiadau trafnidiaeth drwyddi draw'r rhanbarth a gwmpesir gan y prosiect.

Gofynnodd aelod faint oedd y costau a oedd wedi cael eu hysgwyddo, e.e. am weinyddiaeth a chomisiynu ac ati, o ganlyniad i gefnogi'r Fargen Ddinesig.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod rhai gofynion cymorth a roddwyd ar waith mewn perthynas â'r uchod yn orfodol, a bod y rhain yn ymwneud yn bennaf â materion llywodraethu. Er enghraifft, byddai ond un ffynhonnell un craffu ar y cynllun, yn hytrach na phob awdurdod sydd yn cymryd rhan yn craffu ar wahân drwy ddeg dull gwahanol. Dywedodd fod tîm prosiect wedi cael ei roi ar waith hefyd i gefnogi Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. O'u cymharu â Bargeniau Ddinesig eraill sy'n gweithredu drwy'r DU, ychwanegodd y Prif Weithredwr ymhellach, roedd mecanweithiau cefnogi megis tîm y prosiect yn 'ddarbodus'. Esboniodd fod angen i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gael ei harchwilio hefyd, a byddai hynny'n gost ychwanegol. Dywedodd wrth yr aelod y gallai roi amcangyfrif o gyfanswm y gost ar gyfer materion fel yr uchod yn dilyn y cyfarfod.

Ychwanegodd Cadeirydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y byddai'r gost ar gyfer yr uchod a rhai elfennau gorfodol eraill o'r Fargen Ddinesig yn dod i gost a rennir o £1 miliwn rhwng pob un o'r awdurdodau sydd yn cymryd rhan.

Gofynnodd un aelod, o ran y gost £1 miliwn o ran y cymorth a'r gwaith monitro mewn perthynas â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a oedd hyn yn cynnwys cost y prosiect a oedd yn cael ei archwilio, a dywedodd yr Arweinydd fod hyn yn wir.

Gofynnodd un aelod a oedd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael ei chefnogi gan gyflogeion/staff y sector preifat neu gyhoeddus.

Cadarnhaodd Cadeirydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei bod yn cael ei chefnogi gan y gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys cyflogeion o'r awdurdodau sydd yn cymryd rhan ar gyfer yr unig brosiect sy'n weithredol hyd yn hyn, sef y prosiect lled-ddargludyddion yng Nghasnewydd. Ond fel y crybwyllwyd uchod, roedd yn rhaid i gyrrff allanol megis KPMG ac asiantaethau allweddol eraill fod yn allanol at ddibenion monitro, archwilio, diwydrwydd dyladwy ac ati.

Gofynnodd un aelod beth oedd y sail resymegol y tu ôl i gyflwyno'r prosiect lled-ddargludyddion yn ardal Casnewydd.

Dywedodd Cadeirydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fod y rhesymau am hyn o ganlyniad i'r ffaith fod y ffatri LG a oedd yno o maint addas ar gyfer y prosiect lled-ddargludyddion (felly ni fyddai costau i'w talu i adeiladu safle newydd), a bod digon o dir o amgylch y ffatri i leoli unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yno fel estyniad o'r safle presennol. Roedd y datblygiad hwn hefyd yn cefnogi dulliau technoleg effeithiol, ac o ystyried yr ardal sylweddol o'i amgylch, byddai hyn yn helpu economi'r ardal, gan gynnwys creu swyddi.

Gofynnodd un aelod beth oedd y broses a ddilynwyd o ran nodi prosiectau sy'n rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'u cymeradwyo yn dilyn hyn.

Cadarnhaodd Cadeirydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y byddai'r holl brosiectau a gyflwynir, megis y rheini gan gwmnïau busnes preifat, prifysgolion neu'r awdurdodau lleol sy'n rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn cyflwyno cynigion priodol a fyddai'n cael eu hystyried ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl feini prawf angenrheidiol fel yr amlinellir yn y Cynllun Busnes. Byddai gweithgorau swyddogion wedyn yn dadansoddi pob un o'r prosiectau i weld a oeddent yn haeddu ystyriaeth bellach ac a oeddent yn cynnig gwerth am arian. Wedyn byddai rhai argymhellion yn cael eu rhoi i aelodau allweddol o bob un o'r awdurdodau sy'n cynnal y prosiect ac, yn dilyn y rhain, byddant yn penderfynu a ddylid rhoi ystyriaeth gref i unrhyw brosiect a gyflwynwyd. Roedd cyfanswm o 25,000 o swyddi newydd yn cael eu targedu yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod proses grymus iawn ar waith o ran prosiectau a awgrymir ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac fel yr oedd y Cadeirydd newydd gadarnhau, roedd meini prawf penodol yr oedd yn rhaid eu bodloni cyn y gellir rhoi ystyriaeth gref i'r rhain. Roedd angen i brosiectau o'r fath sicrhau cyfleoedd am gyflogaeth a denu buddsoddiad i'r sector preifat os oeddent am lwyddo fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ychwanegodd fod croeso i brosiectau mewn ardaloedd heblaw am brifddinas Cymru, ac, ar ben hynny, i brosiectau trawsardal i ryw raddau neu'i gilydd.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn ag unrhyw brosiectau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hyd yn hyn.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod rhai prosiectau yn cael eu hystyried ond bod y rhain yn destun trafodaeth barhaus ar hyn o bryd.

Gofynnodd un aelod i'r gwahoddedigion pwy oedd yn eistedd ar Fwrdd Prosiect Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod hyn yn cynnwys arweinydd etholedig pob un o'r awdurdodau/sefydliadau sydd yn cymryd rhan, a nhw oedd yn penderfynu yn y pen draw, a byddai'r Prif Weithredwr neu swyddogion arweiniol y cyrff hyn hefyd yn bresennol er mwyn rhoi cyngor ac arbenigedd priodol.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw rwystrau o ran pwy fyddai'n gallu argymhell prosiectau i'w hystyried fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd unrhyw rwystrau o ran ffynhonnell prosiectau argymhelledig, gan ychwanegu bod y prosiect lled-ddargludyddion yn deillio o'r sector preifat ac a gafodd ei asesu a'i glirio'n llwyddiannus drwy Gynllun Busnes Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Roedd un aelod yn gobeithio y gallai'r cynnig am wasanaethau parcio a theithio yn ardal Bracla fod yn rhan o gynllun sy'n cwmpasu ardal ehangach o dan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cyfeiriodd hefyd at baragraff 4.7 o'r adroddiad ac Adolygiad Gateway bob pum mlynedd a oedd i fod i ddigwydd yn 2021, a gofynnodd a fyddai hyn yn arwain at ragor o arian ar gyfer y prosiect.

Dywedodd Cadeirydd Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y byddai hyn yn cael ei fonitro yn ystod blwyddyn 10 a 15 o'r prosiect, ac y byddai'n cael ei fesur hefyd yn erbyn fformiwla dangosyddion economaidd y gwerth ychwanegol gros. Ychwanegodd fod y sefyllfa o ran yr Adolygiad Gateway yn mynd rhagddi'n foddhaol.

Dywedodd aelod fod ganddi bryderon o ran problemau tagfeydd ar yr M4 o fewn cyffiniau agos Casnewydd. Gofynnodd a fyddai modd roi sylw i hyn o dan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel rhan o unrhyw brosiect arfaethedig.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod hyn yn bosibl, ond roedd yn rhywbeth y dylai'r darparwyr trafniadaeth gwahanol a Llywodraeth Cymru roi sylw iddo'n ddiethriad, yn enwedig am fod hyn yn fater sydd eisoes yn bodoli a oedd wedi bod yn broblemus ers cryn amser.

Gofynnodd aelod am sicrwydd y byddai unrhyw gontractau a luniwyd ar gyfer staff fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn addas ar gyfer cyflogaion newydd, gan gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru a chynnwys telerau ac amodau addas sy'n debyg i delerau ac amodau eraill staff llywodraeth lleol a'r Gwasanaeth Sifil.

Rhodddwyd sicrwydd i'r aelod gan Gadeirydd Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mai hynny a ddigwyddai, ac y byddai telerau ac amodau cyflogi staff yn cydymffurfio â'r rheolau caffael moesegol priodol.

Dywedodd aelod yr oedd yn gobeithio y byddai rhai o'r prosiectau a glustnodwyd yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys ardaloedd yn y cymoedd, megis y tri a leolir ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Cadarnhaodd Cadeirydd Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y byddai'r Fargen Ddinesig yn edrych i ddatblygu swyddi yn holl ardaloedd y cymoedd ledled y ranbarth, ac y byddai'r canolfannau a oedd wedi cael eu datblygu mewn rhai lleoliadau yn y cymoedd hyd yma drwy arian gan Lywodraeth Cymru yn gobeithio cael eu hehangu ymhellach nid yn unig yn yr ardaloedd mwy difreintiedig, ond hefyd yn ardaloedd gwledig a threfi hefyd.

Cyfeiriodd un aelod at dudalen 38 o'r adroddiad, a rhai cynigion ar gyfer Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd dros y pum mlynedd nesaf o ran y Gronfa Buddsoddi mewn Tai. Ynghyd â hyn, tynnodd sylw'r aelodau hefyd at dudalen 59 o'r adroddiad, sef y Gronfa Tai Ranbarthol ac ardaloedd lle y nodwyd twf o ran tai yn ardaloedd y cymoedd, ynghyd â ffigyrau rhagamcanol mewn perthynas â thai. Dywedodd fod yn well gan ddatblygwyr safleoedd datblygu tai mewn ardaloedd yn hytrach na'r cymoedd, o ganlyniad i'r ffaith fod gwerth tir yn uwch mewn lleoliadau mwy

gwledig neu mewn trefi. Gofynnodd a fyddai hyn yn annog datblygwyr i beidio ag adeiladu datblygiadau tai newydd yn y cymoedd.

Cadarnhaodd Cadeirydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fod Gweithgor y Fargen Ddinesig yn gwneud ymdrech i annog datblygwyr safle i adeiladu tai newydd ym mhob ardal ledled y rhanbarth lle roedd yn addas i wneud hyn, gan gynnwys ardaloedd y cymoedd. Roedd cronfa ar gael i gynorthwyo datblygwyr sy'n adeiladu ar dir lle roedd rhyw fath o broblem yno, e.e. tir ansefydlog, ymysg eraill.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod galw am ddarpariaeth tai yn y cymoedd a bod safleoedd yno a oedd yn addas ar gyfer datblygiadau newydd yn ardaloedd o'r fath. Ychwanegodd hefyd y gellid ystyried ffyrdd i annog datblygwyr safle llai i adeiladu yn y lleoliadau hyn, ac nid yn unig datblygwyr mawr megis Barratt a Wimpey ac ati.

Cyfeiriodd aelod at Flaenoriaeth 7 y Cynllun Busnes, Gwella Cysylltedd yn Fyd-eang, yn Rhanbarthol ac yn Lleol, a nododd o'r naratif ar hyn nad oedd unrhyw sôn am weithiau yr oedd angen brys amdanynt ar Groesfan Rheilffordd Pencoed.

Cadarnhaodd Cadeirydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fod Network Rail yn gwbl gyfrifol am unrhyw waith a wneir yn y lleoliad hwn, er bod trafodaethau parhaus mewn perthynas â gwaith yn y lleoliad hwn rhyngddynt hwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, fel y soniwyd amdano'n gynharach yn y cyfarfod. Pe bai gwaith o'r fath yn cael ei gwblhau, gan gynnwys hyd at y bont, byddai hyn wedyn yn caniatáu i drenau redeg yn fwy aml nag ar hyn o bryd, yn enwedig trenau gwennol o Faesteg i Gaerdydd.

Gan fod hyn yn dod i ben â'r trafod ar yr eitem hon, diolchodd y Cadeirydd i'r gwahoddedigion am fynychu a rhoi eu cyfraniadau, a gadawodd Cadeirydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y cyfarfod yn dilyn hyn.

Casgliadau:

Mae'r Pwyllgor yn deall bod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn broses gynyddol ond mae aelodau yn pryderu ers i'r deg awdurdod lleol lofnodi'r gronfa buddsoddi ranbarthol yn 2016 mai un prosiect yn unig sydd wedi manteisio ar y bartneriaeth.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y ffaith fod diffyg gwybodaeth leol yn yr adroddiad eglurhaol a'r cynllun busnes a gwnaethant argymhell y dylid paratoi adroddiad ar gyfer aelodau yn y dyfodol i gynnig manylion o ran sut y bydd pob prosiect yn fuddiol i Ben-y-bont ar Ogwr yn benodol yn ogystal ag i weddill y rhanbarth. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn hefyd i'r adroddiad gynnwys y costau gweinyddol hyd yn hyn.

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i dderbyn gwybodaeth am sut y gall dinasyddion a busnesau lleol gynnig syniadau a manylion ar gyfer cynigion buddsoddi ranbarthol posibl.

Mae aelodau hefyd wedi gofyn am fanylion o ran pa brosiectau a gynigiwyd hyd yn hyn ac o ba ardal yn y rhanbarth ddaw'r rhain.

77. PERFFORMIAD ARIANNOL 2017–18

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro adroddiad gyda'r diben o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o ran perfformiad ariannol y cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r aelodau at gyllideb refeniw net y cyngor a'r alldro terfynol ar gyfer 2017–18 fel y nodwyd yn Nhabl 1 o'r adroddiad, a oedd yn adlewyrchu'r gymhariaeth rhwng y gyllideb â'r alldro gwirioneddol ar y dyddiad uchod.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys ym mharagraff 4.1.6 yn Nhabl 2 rhai trosglwyddiadau arian ac addasiadau technegol a broseswyd yn ystod Chwarter 4.

Roedd adran nesaf yr adroddiad yn ymhelaethu ynghylch monitro'r Cynigion i Leihau'r Gyllideb, ac yn cynnwys nodyn esboniadol o ran lleihau'r gyllideb yn 2017–18 a chymhariaeth o'r un fath ar gyfer y cyfnod blaenorol yn 2016–17.

Yna roedd paragraff 4.2.4 o'r adroddiad yn nodi'r cynigion mwyaf sylweddol ar gyfer lleihau'r gyllideb nad oeddent wedi cael eu cyflawni yn rhan o statws COG, h.y. coch, oren, gwyrdd.

Roedd Atodiad 2 yr adroddiad yn nodi maint gwirioneddol yr arbedion yn erbyn y cynigion a grybwyllwyd uchod, a'r camau i'w cymryd gan y gyfarwyddiaethau priodol i leihau diffygion wrth symud ymlaen. Byddai'r arbedion a nodwyd na chawsant eu bodloni'n llawn yn parhau i gael eu monitro yn ystod 2018–19. Roedd Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi datblygu Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth yn y Dyfodol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn flaenorol, ac roedd hyn yn amlinellu ymateb y gyfarwyddiaeth i'r her ariannol a oedd yn ei hwynebu, yn enwedig wrth amlinellu'r camau a gynlluniwyd i'w cymryd er mwyn sicrhau'r arbedion ar gyfer y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ac uchafu'r cyfleoedd incwm erbyn mis Mawrth 2019. Byddai hyn yn cael ei fonitro'n barhaus drwy 2018–19.

Roedd darn nesaf yr adroddiad yna'n cynnwys sylwadau o ran sefyllfa ariannol pob prif faes gwasanaeth sy'n cwmpasu cyfarwyddiaethau gwahanol y cyngor, ac roedd Atodiad 3 o'r adroddiad yn ehangu ar hyn, yn ogystal â rhoi sylwadau o ran y gwahaniaethau mwyaf ystyrion.

Cyfeiriodd yr adroddiad wedyn at alldro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017–18, ynghyd â chyngor fod y gyllideb flaenorol a gymeradwywyd gan y cyngor ar 1 Mawrth 2017 wedi cael ei diwygio ymhellach a'i chymeradwyo gan y cyngor yn ystod y flwyddyn i gynnwys cyllidebau a gyflwynwyd o 2016–17, ar y cyd ag unrhyw gynlluniau newydd a grantiau a gymeradwywyd. Roedd y wybodaeth hon hefyd yn cynnwys manylion o ran cynlluniau lle mae arian llithriad yn ofynnol, a'r rhesymau dros hyn.

Roedd Tabl 6 yn yr adroddiad yn rhoi manylion o ran Symud Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd i 31 Mawrth 2018, tra oedd Tabl 7 yn dilyn hyn yn amlinellu'r dyraniadau net i / oddi wrth Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn ystod Chwarter 4. Roedd dadansoddiad llawn o'r holl symud mewn perthynas â Chronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer y cyfnod a nodwyd wedi'i ddarparu yn Atodiad 5 o'r adroddiad.

Gofynnodd yr aelodau sawl cwestiwn i'r gwahoddedigion, gan ymadael â'r cyfarfod yn dilyn hyn. Roedd y cwestiynau hyn yn ymwneud â chludiant o'r cartref i'r ysgol, a phryderon o ran hyn mewn perthynas ag adolygu Llwybrau Diogel i Ysgolion. Gofynnodd yr aelodau gwestiynau hefyd mewn perthynas â darparu Gwasanaeth Gyrrwyr Gwirfoddol.

O ran Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ceisiodd yr aelodau am sicrwydd y byddai gorwariant rhagweledig y cyfarwyddiaethau yn cael ei fodloni maes o law, er gwaethaf y ffaith fod cynllun ariannol ar waith i sicrhau'r gorwariant hwn.

Yn olaf, lleisiwyd rhai pryderon gan aelodau o ran methiant y gwasanaeth iechyd lleol i ddarparu ffynonellau ariannol digonol ar gyfer y gwasanaethau amrywiol a ddarperir gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Ymatebwyd i'r pwyntiau hyn gan y gwahoddedigion amrywiol yn ystod y cyfarfod, neu gofynnwyd iddynt dderbyn sylw yn y dyfodol fel y mynegwyd isod.

Cynigiodd y Pwyllgor rai sylwadau a chasgliadau ar yr eitem hon wedyn, fel y crybwyllwyd isod.

Casgliadau:

Prif Weithredwyr a Chyllid

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cabinet / Bwrdd Rheoli Corfforaethol gynnal ymchwiliad o ran cyflawnadwyedd y gostyngiadau arfaethedig i gyllideb y gyfarwyddiaeth, gan argymhell ymhellach y dylai cynigion afrealistig gael eu dileu o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Addysg a'r Gyfarwyddiaeth Cymorth i Deuluoedd

Mynegodd y Pwyllgor bryderon o ran y ffaith fod gan dros hanner yr ysgolion yn y fwrdeistref gyllidebau diffygiol, gan gwestiynu lefel galluoedd cyllidebu ysgolion. Argymhellodd yr aelodau, felly, y dylai'r hyfforddiant ariannol ar gyfer yr holl lywodraethwyr ysgolion gael ei wneud yn orfodol i sicrhau rheolaeth a chraffu effeithiol ar gyllideb eu hysgol.

Yn dilyn trafodaethau mewn perthynas â'r adolygiad i ddod ynghylch addasrwydd ardaloedd dalgylch ledled yr awdurdod lleol, argymhellodd y Pwyllgor y dylid ymgynghori ag aelodau ward fel rhan o'r ymarfer.

Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Gofynnodd yr aelodau pan fydd yr adroddiad perfformiad ariannol dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, a fyddai modd i'r Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth yn y Dyfodol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gael ei gyflwyno ynghyd â hyn.

78. PERFFORMIAD Y CYNGOR YN ERBYN EI YMRWYMIADAU AR GYFER 2017–18

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn cynnig trosolwg i'r Pwyllgor o berfformiad y Cyngor yn 2017–18 yn erbyn ei ymrwymadau yn 2017–18 i gyflawni'r blaenoriaethau gwella a nodwyd yn ei Gynllun Corfforaethol 2016–10, fel y'i adolygwyd yn 2017–18.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu rhywfaint o wybodaeth gefndirol, gan esbonio'r meysydd gwaith canlynol yn dilyn hynny:

- Ymrwymadau
- Dangosyddion Perfformiad Corfforaethol
- Dangosyddion Cynllun Corfforaethol
- Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol
- Dangosyddion Fframwaith Mesur Perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Cyllideb

- Gostyngiadau i'r Gyllideb

PENDERFYNWYD: (1) Nododd y Pwyllgor berfformiad diwedd y flwyddyn ar gyfer 2017–18 yn erbyn y Cynllun Corfforaethol.

(2) Argymhellodd yr aelodau mai ond y dangosyddion perfformiad nad ydynt wedi cael eu bodloni hyd yn hyn y dylid eu cyflwyno mewn adroddiadau o'r fath yn y dyfodol.

79. EITEMAU BRYD

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:48

This page is intentionally left blank

Presennol

Y Cyngorydd CA Green – Cadeirydd

JPD Blundell
RL Penhale-Thomas
CA Webster

N Clarke
RMI Shaw

T Giffard
JC Spanswick

M Jones
T Thomas

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Gebbie

Swyddogion:

Julie Ellams
Gail Jewell
Tracy Watson

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu

Gwahoddedigion:

Sarah-Jane Byrne
Greg Lane
Martin Morgans

Rheolwr Awdurdod Lleol, Swyddfa Archwilio Cymru
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau
Partneriaeth

Ian Phillips
Kelly Watson
Cynghorydd Hywel Williams

Swyddfa Archwilio Cymru
Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Dirprwy Arweinydd

81. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd R. Shaw fuddiant personol yn eitem 5 o'r Agenda, Swyddfa Archwilio Cymru – Trosolwg a Chraffu – Addas i'r dyfodol? Roedd yn aelod o Banel Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

Datganodd y Cynghorydd T. Giffard fuddiant personol yn eitem 5 yr Agenda, Swyddfa Archwilio Cymru – Trosolwg a Chraffu – Addas i'r dyfodol? Arferai fod yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

82. DIWEDDARIAD RHAGLEN GWAITH

Gwnaeth y Swyddog Craffu gyflwyno'r adborth o'r cyfarfod blaenorol, a gofynnodd i'r aelodau gymeradwyo'r ymatebion/sylwadau a nodwyd yn yr adroddiad.

Gofynnodd aelod am ragor o wybodaeth am yr eitem ar y Fargen Ddinesig, a gofynnodd â pha fusnesau y byddai'r Fforwm Busnes Rhanbarthol a'r Partneriaethau Economaidd Rhanbarthol yn ymgysylltu. Gofynnodd hefyd beth oedd y Fforwm a phwy oedd yn ymgysylltu ag ef. Eglurodd yr aelod ei bod yn hanfodol gwybod beth yn union oedd yn digwydd gyda'r Fargen Ddinesig, pan oedd aflonyddwch oherwydd toriadau mewn cymorthdaliadau a gwasanaethau'n cau. Gofynnodd aelodau am adborth o gyfarfodydd craffu'r Fargen Ddinesig yn y dyfodol.

Gwnaeth aelod ofyn am eglurhad pellach ynghylch yr ymateb i'r eitem Perfformiad Ariannol 2017–18, oherwydd nid oedd gostyngiadau cyllidebol wedi'u cyfrifo'n unigol.

Cyfeiriodd aelod at adeiladau gwag, a gofynnodd a oedd swyddog wedi'i gyflogi yn y tîm hwnnw a pha gynnydd oedd wedi'i wneud. Eglurodd y Swyddog Craffu ei fod ar y flaenraglen waith fel eitem posibl i'w hailgyflwyno yn y dyfodol.

Cyfeiriodd aelod at yr eitem Perfformiad Ariannol 2017–18, a gofynnodd pa gymorth oedd yn cael ei roi i ysgolion i reoli cyllideb mewn diffyg a pha gymorth oedd yn cael ei roi i ysgolion i'w helpu i gael cyllid ychwanegol ac i'w cyfeirio at gyfleoedd.

Adroddodd y Swyddog Craffu fod Caffael a Chontractau wedi'u rhestru fel eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf. Gofynnodd yr aelodau a allai'r adroddiad ganolbwyntio ar gaffael a chyflogaeth foesegol a'r defnydd o becynnau cymorth.

PENDERFYNWYD: Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- 1) Cymeradwyo'r adborth o'r cyfarfod blaenorol a gofyn am ragor o wybodaeth fel y nodwyd uchod.
- 2) Nodi gwybodaeth benodol yr oedd y Pwyllgor yn dymuno ei chael o ran yr adroddiad Caffael a Chontractau a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf.

83. RHAGLEN TRAWSNEWID DIGIDOL

Rhoddodd y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau gyflwyniad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd oedd wedi'i wneud ers cyflwyno Cam 1 o'r Rhaglen Trawsnewid Digidol ar 24 Ebrill 2018, ac ar ddatblygiad Cam 2. Amlinellodd y cyflwyniad y prif ystadegau o gam 1, y cynnydd o ran y wefan, ymrwymadau'r Cynllun Corfforaethol, y cynlluniau Darganfod/Llywio a chynlluniau ailddylunio'r broses busnes ar gyfer cam 2 a'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer y rhaglen.

Gofynnodd aelod a oedd dadansoddiad wedi'i wneud o geisiadau ar-lein y dreth gyngor er mwyn olrhain meysydd a oedd yn defnyddio'r system ac edrych ar ffyrdd o leihau'r rhwystrau mewn meysydd eraill a hybu'r defnydd o'r wefan. Eglurodd y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau fod Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn cyfyngu'r ffordd yr oedd data'n cael ei drin a'i ddefnyddio, ond roeddent yn edrych am ffyrdd o ddod o hyd i'r rhwystrau ac ymdrin ag allgáu. O safbwynt y dreth gyngor, roedd 70% o ddeiliaid cyfrifon yn talu drwy ddebyd uniongyrchol ac yn cael ychydig iawn o gyswllt â'r awdurdod, felly nid oedd cymhelliant i ddefnyddio'r system. Roedd yr adran Budd-daliadau Tai yn gweithio gyda phartneriaid i leihau allgáu, ac roedd yn hyderus y gallent gynyddu nifer y defnyddwyr. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid gwneud dadansoddiad fesul cod post o ardaloedd nad ydynt wedi cofrestru ar-lein ar gyfer y dreth Gyngor. Gofynnodd yr aelodau am yr wybodaeth hon er mwyn cynorthwyo i ddarparu dealltwriaeth ddemograffig o ardaloedd mae angen canolbwyntio arnynt ar gyfer hysbysebu Fy Nghyfrif.

Nododd y Pwyllgor mai dim ond 49.59% o'r dinasyddion a oedd wedi cofrestru eu cyfrif treth gyngor ar-lein oedd wedi tanysgrifio ar gyfer e-filio. Esboniodd un aelod ei bod wedi cofrestru i gael biliau di-bapur ar gyfer ei biliau cyfleustodau am fod gostyngiad wedi'i gynnig. Gallai hwn fod yn opsiwn i gynyddu'r cofrestradau, ond cydnabuwyd y gallai hyd yn oed gostyngiad bychan fod yn heriol yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Gwnaeth yr aelodau argymhell y dylai'r Cyngor ystyried cynnig gostyngiad bychan fel cymhelliant fel modd o hybu biliau di-bapur.

Cyfeiriodd aelod at y system atgyfeirio aelodau fel system "lletchwith" ac anodd ei defnyddio. Gofynnodd a oedd modd cynnig mapiau pontio i aelodau eu defnyddio a chynnig sesiwn hyfforddi arnynt. Eglurodd y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau fod gweithgor wedi'i sefydlu i edrych ar atgyfeiriadau aelodau. O ran yr ap o'r enw 'Bridgend Report It' a oedd yn caniatáu i ddinasyddion adrodd ar faterion priffyrdd fel tyllau yn y ffordd a baw cŵn, argymhellodd aelodau y dylai'r ap gynnwys y gallu i adrodd ar faterion sy'n ymwneud â thorri glaswellt a biniau sbwriel gorlawn. Gwnaeth y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau hefyd gytuno i edrych ar hyfforddiant i aelodau ar fapiau pontio.

Gofynnodd aelod ai'r opsiwn Chatbot fyddai'r unig opsiwn yn lle defnyddio staff. Eglurodd y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau nad oeddent yn ceisio lleihau sianeli, fel y nodwyd yn ei gyflwyniad. Yn hytrach, roeddent eisiau ychwanegu ymarferoldeb. Mae'n bosibl na fyddai'n addas i'r diben ym mhob maes, ond ni fyddent yn colli mynediad at aelod o staff pe bai angen hynny.

Diolchodd aelod i'r swyddog am yr adroddiad a'r cyflwyniad ac am y cynnydd oedd wedi ei wneud. Mynegodd bryderon ynghylch yr effaith ar gydraddoldeb, a phwysleisiodd fod angen i'r wefan fod yn gwbl gynhwysol. Cyfeiriodd yr aelod at y goblygiadau ariannol a'r sefyllfa danwario bresennol. Gofynnodd a oedd cynllun ariannol gwydn ar droed ar gyfer y tair i bum mlynedd nesaf. Eglurodd y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau nad oedd y cam cyntaf wedi bod yn fanwl gywir ac roedd y prif bwyslais wedi bod ar gaffael a dechrau creu cyfleoedd. Y pethau allweddol i gynnydd oedd ailddylunio'r broses fusnes a chael pobl i ddefnyddio'r system. Cytunodd y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau y byddai'r adroddiad cynnydd nesaf a gyflwynir ganddo'n cynnwys cynllun mwy manwl, gan gynnwys unrhyw fygythiadau i'r rhaglen.

Cyfeiriodd un aelod at ddyblygu atgyfeiriadau, a gofynnodd sut gellid rheoli hyn yn well er mwyn osgoi gwastraffu amser ac ymdrech. Eglurodd y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau pe bai adroddiadau lluosog ar gyfer yr un mater, byddai'n cael ei dagio a byddai aelodau eraill yn gallu gweld bod y mater wedi'i adrodd eisoes. Byddai hyn hefyd yn rhoi syniad o lle roedd y problemau ledled y fwrdeistref ac yn annog gweithgarwch swyddogion yn yr ardaloedd hynny.

Diolchodd aelod i'r swyddog am yr adroddiad ac awgrymodd y dylid llongyfarch y tîm ar eu cyflawniadau. Gofynnodd am wybodaeth am yr hyn yr oedd awdurdodau eraill yn ei wneud a sut roeddent yn mynd ati i ymdrin â'r mater hwn. Cyfeiriodd yr aelod at y rhagolwg y byddai dros 85% o ryngweithiadau â chwsmeriaid yn cael eu trin heb fod dynol erbyn 2020, a gofynnodd pa effaith y byddai hyn yn ei chael ar lefelau staffio a swyddi wrth symud ymlaen. Eglurodd y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau ei fod yn cwrdd ag awdurdodau eraill yn rheolaidd i drafod cynnydd. Roedd dull gweithredu tameidiog ledled Cymru yn ôl pob golwg. Byddai staff yn gallu gwneud llawer mwy o waith gweithredol pe bai'r maes wedi'i ddigideiddio, a gallai hyn gyflwyno buddion gwirioneddol o ran sut i wneud y broses yn gyflymach o safbwynt corfforaethol. Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd ei fod wedi pwysleisio edrych ar eraill yn y dyddiau cynnar yn hytrach nag ailddyfeisio'r olwyn. Y gwir amdani oedd ein bod yn cyflawni'n wahanol, ac felly'n gorfod adeiladu ein gwasanaeth ein hunain a mynd â staff gyda ni. Roedd hyn yn caniatáu i'r awdurdod reoli'r twf yn y boblogaeth a'r galw yn y gweithlu cyfredol.

Cynigiodd aelod y posibilrwydd o ehangu ysgolion di-arian oherwydd byddai'n hybu bwyta'n iach ac yn osgoi'r stigma o brydau ysgol am ddim. Byddai hefyd yn ffordd o reoli gwastraff bwyd. Gofynnodd a oedd unrhyw hyblygrwydd pe bai rhieni'n anghofio rhoi arian ar gerdyn eu plentyn. Gwnaeth y Pwyllgor argymhell y dylai'r system hefyd gynnwys taliadau di-arian ar gyfer teithiau ysgol a thocynnau ar gyfer digwyddiadau ysgol er

enghraifft, er mwyn lleihau costau gweinyddol a chynorthwyo rhieni i wneud taliadau pan oedd yn gyfleus iddynt.

Gofynnodd aelod a oedd unrhyw newidiadau yn mynd i gael eu cyflwyno i'r system Bathodyn Glas. Adroddodd y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau fod trafodaethau ar droed o ran ceisiadau Bathodyn Glas a bod cynlluniau peilot yn dechrau ym mis Hydref. Y bwriad oedd i'r system fod yn gwbl hygyrch gan ddefnyddio iaith syml.

Awgrymodd aelod y gellid cynnwys botwm ar y wefan newydd a fyddai'n caniatáu i bobl weld cyfarfodydd y cyngor. Dylai hefyd fod doler i dwristiaeth, oherwydd roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfrifol am ddigwyddiadau chwaraeon fel twrnameintiau golff gorau'r byd a digwyddiadau eraill a oedd yn cynhyrchu incwm. Wrth drafod y wefan newydd, nododd aelodau fod digwyddiadau proffil uchel iawn wedi cael eu cynnal ledled y Fwrdeistref yn flaenorol nad oeddent wedi'u hysbysebu'n ddigonol i hyrwyddo'r digwyddiad yn effeithiol, felly, argymhellwyd bod Twristiaeth yn cael ei thudalen gwe ei hun gyda'i botwm ei hun ar dudalen hafan Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Yn ogystal, er mwyn annog ymgysylltiad y cyhoedd â'r Cyngor, argymhellodd aelodau y dylid ychwanegu botwm i'r dudalen hafan i ganiatáu i drigolion wylio gweddarllediad o gyfarfodydd y Cyngor.

Nododd aelod ansawdd sain gwael cyfarfodydd dros gweddarllediad. Cytunodd y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaeth i gyfeirio'r mater at y maes gwasanaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

Rhaglen Trawsnewid Digidol

Gwnaeth y Pwyllgor longyfarch Pennaeth y Gwasanaeth Perfformiad a Phartneriaeth ar yr hyn yr oedd wedi'i gyflawni'n ddigidol, a chlodforodd aelodau'r newid cadarnhaol yn niwylliant yr awdurdodau lleol.

